***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 7

# PARTNERIAETHAU

## RHAN 4

## TRAFODIADAU SY'N YMWNEUD Â THROSGLWYDDIADAU I BARTNERIAETH

*Trosglwyddo buddiant partneriaeth yn unol â threfniadau osgoi trethi*

18 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—
- (a) pan drosglwyddir buddiant trethadwy i bartneriaeth ("y trosglwyddiad tir");
- (b) pan fo'r trosglwyddiad tir o fewn paragraff 13(1);
- (c) pan drosglwyddir buddiant yn y bartneriaeth wedi hynny ("trosglwyddiad y bartneriaeth");
- (d) pan wneir trosglwyddiad y bartneriaeth—
  - (i) os yw'r trosglwyddiad tir o fewn paragraff 13(1)(a) neu (b), gan y person sy'n gwneud y trosglwyddiad tir;
  - (ii) os yw'r trosglwyddiad tir o fewn paragraff 13(1)(c), gan y partner o dan sylw;
- (e) pan wneir trosglwyddiad y bartneriaeth yn unol â threfniadau sy'n drefniadau osgoi trethi, neu'n rhan ohonynt a oedd yn eu lle ar adeg y trosglwyddiad tir;
- (f) pan nad yw trosglwyddiad y bartneriaeth (oni bai am y paragraff hwn) yn drafodiad trethadwy.

(2) At ddibenion y Ddeddf hon, o ran trosglwyddiad y bartneriaeth—
- (a) cymerir ei fod yn drafodiad tir, a
- (b) mae'n drafodiad trethadwy.

(3) Cymerir mai'r partneriaid yw'r prynwyr yn y trafodiad.

(4) Cymerir bod y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad yn hafal i gyfran o werth marchnadol, ar ddyddiad y trafodiad, y buddiant a drosglwyddir gan y trosglwyddiad tir.

(5) Y gyfran honno—
- (a) os nad yw'r person sy'n gwneud trosglwyddiad y bartneriaeth yn bartner yn union ar ôl trosglwyddiad y bartneriaeth, yw cyfranddaliad y person hwnnw yn y bartneriaeth yn union cyn y trosglwyddiad hwnnw;
- (b) os yw'r person yn bartner yn union ar ôl trosglwyddiad y bartneriaeth, yw'r gwahaniaeth rhwng cyfranddaliad y person yn y bartneriaeth cyn y trosglwyddiad hwnnw ac ar ei ôl.

(6) Cymerir bod trosglwyddiad y bartneriaeth a'r trosglwyddiad tir yn drafodiadau cysylltiol.

(7) Mae paragraffau 9 i 11 (cyfrifoldeb partneriaid) yn cael effaith mewn perthynas â throsglwyddiad y bartneriaeth, ond y partneriaid cyfrifol yw—
- (a) y rhai hynny a oedd yn bartneriaid yn union cyn y trosglwyddiad ac sy'n parhau i fod yn bartneriaid ar ôl y trosglwyddiad, a

(b) unrhyw berson sy'n dod yn bartner o ganlyniad i'r trosglwyddiad, neu mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad.

(8) Yn y paragraff hwn, mae i "trefniadau osgoi trethi" yr ystyr a roddir gan adran 31.